# Adroddiad Blynyddol Cwlwm

2023/24

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi adborth ar y deilliannau a gyflawnwyd yn ystod 2023/24 yn erbyn y targedau a osodwyd.

Cynnwys


| | Tud. |
|---|---|
| 1. Manylion cyswllt partneriaid Cwlwm | 3 |
| 2. Partneriaid Cwlwm | 4-5 |
| 3. Y targedau | 6-11 |
| 4. Deilliannau yn erbyn y targedau | 12-29 |

**Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs**
Prif gyswllt: Jane O'Toole
Bridge House
Station Road
Llanishen
Caerdydd
CF14 5UW
Ffôn: 02920741000
E-bost: JaneO@clybiauplantcymru.org

**Blynyddoedd Cynnar Cymru**
Prif gyswllt: David Goodger
Unit 1
Coopers Yard
CurranRoad Cardiff
CF105NB
Ffôn: 02920451242
E-
bost:davidg@earlyyears.wales

**Mudiad Meithrin**
Prif gyswllt: Gwenllian Lansdown Davies
Ganolfan Integredig
Boulevard De Saint
BrieucAberystwyth SY23
1PD Ffôn: 01970639639
E-bost: gwenllian@meithrin.cymru

**NDNA Cymru**
Prif gyswllt: Sarah Coates
Connaught House,
Riverside Business Park,
Benarth Road,
Conwy
LL32 8UB
Ffôn: 01824707823
E-bost: sarah.coates@ndna.org.uk

**PACEY Cymru**
Prif gyswllt: Claire Protheroe
Room 3.8
The Maltings
East Tyndall Street Cardiff
CF24 5EZ
Ffôn: 02920351407
E-bost: claire.Protheroe@pacey.org.uk

## Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn sefydliad elusennol gwirfoddol dwyieithog (1093260) ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant (4296436). Wedi'i sefydlu ym mis Hydref 2001, mae'n bodoli i helpu cymunedau yng Nghymru trwy hyrwyddo, datblygu a chefnogi Clybiau Gofal Plant All Ysgol o ansawdd, fforddiadwy, a hygyrch.

Ble mae cyllid ar gael mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn datblygu cyrsiau/gweithdai ar gyfer oedolion a phlant, i ateb anghenion hyfforddi er mwyn gwella chwarae o safon o fewn clybiau. Gyda'u gwybodaeth a dealltwriaeth o ddarpariaeth gofal plant all ysgol o ansawdd uchel, maent mewn sefyllfa dda i ddarparu hyfforddiant o safon. Maent yn ganolfan gymeradwy gyda Chorff Dyfarnu CACHE fel darparwr cymwysterau achrededig gwaith chwarae ac asesu; a gydag Agored a City and Guilds ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ac Ymwybyddiaeth Cyflogaeth.

Mae ganddynt brofiad helaeth o gyflwyno gweithdai i weithwyr chwarae ar amrywiaeth o bynciau o STEM, yr amgylchedd, a Llywodraeth Cymru. Hwylusodd CPCKC/rhedeg prosiect o'r enw Chwarae, Dysgu, Tyfu'n Iach a ariannwyd gan Grant Sector Gwirfoddol Her Iechyd Cymru.

## Blynyddoedd Cynnar Cymru

Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn sefydliad ymbarél arbenigol sy'n ymroddedig i ddatblygiad plant 0 i 5 oed sy'n cefnogi darpariaeth cyfleoedd dysgu a chwarae creadigol, strwythuredig, o ansawdd, i blant yng Nghymru.

Pwy ydym ni:

Ers 1961, ni yw'r darparwr mwyaf o wasanaethau aelodaeth cynhwysfawr i'r sector Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru. Credwn fod gan bob teulu'r hawl i gyfleoedd chwarae, addysg a gofal o ansawdd uchel i helpu eu plant i gyrraedd eu potensial.

Yr hyn yr ydym yn ei wneud:

Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn cefnogi rhieni/gofalwyr/teuluoedd a darparwyr Blynyddoedd Cynnar i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn ledled Cymru trwy:

- Cefnogi darparwyr blynyddoedd cynnar a gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar
- Cefnogi rhieni, gofalwyr a theuluoedd i gymryd rhan mewn chwarae
- Hyrwyddo gwaith Blynyddoedd Cynnar Cymru yn eang
- Cyfrannu at weithredu polisi ar lefel genedlaethol a lleol
- Datblygu partneriaethau
- Cynnal a datblygu llywodraethu a rheoli'r sefydliad
- Recriwtio a datblygu staff a gwirfoddolwyr
- Ceisio a rheoli cyllid i gynnal ac ehangu ein gwasanaethau

## Mudiad Meithrin

Mudiad gwirfoddol yw Mudiad Meithrin. Ei nod yw rhoi cyfle i bob plentyn cyn oed ysgol yng Nghymru elwa o brofiadau'r blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Mudiad Meithrin yn cyflogi tua 220 o staff yn genedlaethol ac mae dros 1,500 aelod o staff yn gweithio yn ein Cylchoedd Meithrin. Mae ei Swyddogion Cymorth yn gweithio ar lefel leol ym mhob sir gan gynnig arweiniad a chyngor ymarferol i staff, gwirfoddolwyr a rhieni ein cylchoedd.

Gan fod chwarae yn rhan annatod o bob agwedd ar ddatblygiad plant, mae'r profiadau a'r gweithgareddau a gynigir ar draws ein hystod o ddarpariaeth yn seiliedig ar ddysgu trwy chwarae. Rhoddir pwyslais arbennig ar ddatblygiad iaith a datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol y plant yn eu cylchoedd.

Mudiad Meithrin yw prif ddarparwr gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector gwirfoddol.

**NDNA Cymru**

Mae NDNA Cymru yn elusen genedlaethol a chymdeithas aelodaeth sy'n cynrychioli meithrinfeydd dydd ledled y DU, gan ddarparu gwybodaeth, hyfforddiant a chymorth fel y gall y meithrinfeydd ddarparu'r gofal gorau posibl i blant ifanc. NDNA yw llais y sector meithrinfa ddydd, ac yn rhan annatod o fywydau bron i filiwn o blant a'u teuluoedd. Mae NDNA yn gweithio gyda llywodraethau lleol a chenedlaethol i ddatblygu amgylchedd lle gall addysg a gofal blynyddoedd cynnar o ansawdd ffynnu. Mae NDNA yn cefnogi darparu gofal plant o ansawdd uchel, fforddiadwy a hygyrch.

Gweledigaeth yr elusen yw i bob plentyn a theulu ffynnu drwy addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd uchel. Ei chenhadaeth yw arwain a grymuso'r sector fel bod meithrinfeydd a gweithlu'r blynyddoedd cynnar yn darparu addysg a gofal plentyndod cynnar cynaliadwy o ansawdd uchel. Yn ogystal, dylai pob aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant ifanc gael mynediad at hyfforddiant ystyrlon o ansawdd uchel, a dylai pob rhiant gael yr hawl i fod yn rhan o ofal ac addysg eu plentyn.

Mae swyddfa genedlaethol NDNA Cymru wedi'i lleoli yng Nghonwy. Mae NDNA Cymru yn gyfrifol am Gymru gyfan ac mae ganddi ei hymddiriedolwr ei hun dros Gymru sy'n aelod o Fwrdd Strategol yr Elusen, y Cyngor Aelodaeth Cenedlaethol a Bwrdd Cynghori Polisi Cymru.

**PACEY Cymru**

PACEY yw'r Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar. Wedi'i ffurfio yn 1977, mae hi’n elusen â’r nod o gefnogi pawb sy'n gweithio ym maes gofal plant a'r blynyddoedd cynnar i ddarparu gofal a dysgu cynnar o ansawdd uchel i blant a theuluoedd.

Mae’r elusen yn darparu hyfforddiant, cymorth ymarferol a chyngor arbenigol i ymarferwyr sy'n gweithio ledled Cymru a Lloegr. Maent hefyd yn darparu cefnogaeth ac anogaeth gan gymheiriaid trwy eu rhwydwaith cenedlaethol o wirfoddolwyr PACEY.

Eu cenhadaeth yw cefnogi pawb sy'n gweithio ym maes gofal plant a'r blynyddoedd cynnar i ddarparu gofal plant a dysgu cynnar o ansawdd uchel; a hyrwyddo'r rôl hanfodol y mae ymarferwyr yn ei chwarae wrth helpu i baratoi plant ar gyfer dyfodol disglair.

Mae PACEY Cymru yn cefnogi aelodau a phobl sy'n gweithio ym maes gofal plant yng Nghymru i ddarparu'r safonau gofal gorau posib i blant. Maen nhw’n gweithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac asiantaethau i sicrhau bod gan deuluoedd ledled Cymru fynediad at ofal plant fforddiadwy, o ansawdd.

| Allbwn | Targe d | | Targed Campus[1] |
|---|---|---|---|
| 1 | Gweithredu cynllun i hyrwyddo bodolaeth Camau ac annog 500 o ddysgwyr i gofrestru ar y cyrsiau. | 1.1 | A. Hyrwyddo'r cyrsiau Camau drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol, safleoedd we, cyfarfodydd, e-bwletinau. |
| | | 1.2 | A. Datblygu fideo hyrwyddo yn dangos manteision ymgymryd â chwrs Camau.<br>B. Gosod ar wefan Cwlwm.<br>C. Hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol. |
| | | 1.3 | A. Datblygu amserlen i rannu negeseuon cadarnhaol gan ddysgwyr ar y cyfryngau cymdeithasol.<br>B. Rhannu negeseuon cadarnhaol gan ddysgwyr ar y cyfryngau cymdeithasol yn ôl yr amserlen. (I'w rhannu gan un o bartneriaid Cwlwm, 1 bob wythnos). Hyrwyddo unedau Camau gyda dolenni i adnodd cyfatebol. (Taflen wybodaeth/fideo'n gysylltiedig â'r uned a wnaed gan y dysgwyr) ar sail wythnosol, trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol Cwlwm a'r mudiadau'n unigol. |

[1] CAMPUS: cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 1.4 | A. Datblygu amserlen ar gyfer sesiynau byw misol i hyrwyddo ac arddangos cyrsiau, unedau ac adnoddau Camau.<br>B. Hyrwyddo’r sesiynau byw misol ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan Cwlwm.<br>C. Darparu’r sesiynau drwy’r platfform ar-lein (mynychu rhai wyneb yn wyneb pe bai angen). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 1.5 | A. Bob partner Cwlwm i greu 4 astudiaeth achos (1 bob chwarter) sy’n amlygu taith y dysgwr ar y cyrsiau Camau, sy’n rhannu sut mae hyfforddiant yn dylanwadu ar ymarfer.<br>B. Gosod yr astudiaethau achos ar wefan Cwlwm.<br>C. Rhannu’r astudiaethau achos ar gyfryngau cymdeithasol Cwlwm a’r partneriaid. |
| 2 | Darparu cefnogaeth barhaus i’r 500 dysgwr ar gyrsiau Camau rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024. | 2.1 | Partneriaid Cwlwm i ddarparu cefnogaeth barhaus a chyswllt dilynol i sicrhau bod hyfforddiant yn dylanwadu ar ymarfer, a hynny dros e-bost / ffôn / platfform ar-lein / wyneb yn wyneb.<br>Rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol. |
| | | 2.2 | A. Datblygu amserlen i hyrwyddo ‘Gair yr Wythnos’ ar y cyfryngau cymdeithasol yn wythnosol.<br>B. Rhannu ynganiad a gramadeg ‘Gair yr Wythnos’ dros y cyfryngau cymdeithasol, a gwefan Cwlwm a’r partneriaid. |
| | | 2.3 | A. Datblygu taflen wybodaeth yn cynnwys dolenni defnyddiol.<br>B. Gosod ar wefan Cwlwm.<br>C. Rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol. |
| | | 2.4 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | A. Darparu adnodd fideo'n ddeufisol i gyd-fynd â'r unedau i gefnogi datblygiad a chynnydd dysgwyr. (Er gwybodaeth, ym mis Ebrill fyddem yn rhannu fideo ar gynnwys uned 1, uned 2 ym mis Mehefin, ac ati. Erbyn diwedd y flwyddyn fyddem wedi rhyddhau 6 fideo ar gyfer y 6 uned gyntaf.)<br>B. Gosod fideo ar wefan Cwlwm.<br>C. Rhannu'r amserlen ar wefan Cwlwm.<br>D. Hyrwyddo i ddysgwyr yn fisol. |
| 3 | Cydlynu cyfarfodydd misol a deufisol gyda'r sawl sy'n rhan o brosiect Camau er mwyn sicrhau dull cydlynus. | 3.1 | A. Trefnu cyfarfodydd misol ar gyfer cydlynwyr Iaith Gymraeg Cwlwm.<br>B. Danfon dolenni Teams.<br>C. Gwahodd eitemau agenda 10 diwrnod cyn y cyfarfod.<br>D. Danfon camau gweithredu'n ddwyieithog i gydlynwyr IG 4 diwrnod ar ôl y cyfarfod. |
| | | 3.2 | A. Trefnu cyfarfodydd deufisol gyda'r partneriaid arweiniol a'r GDCG ar faterion yn ymwneud â dysgwyr a chyrsiau Camau.<br>B. Cyfarfod ac adrodd yn ôl i bartneriaid Cwlwm. |
| | | | |
| 4 | Cynhyrchu adnoddau cefnogol i'r dysgwyr ar y cyrsiau Camau: Gwaith Chwarae 3; Sylfaen 2 a 3, erbyn mis Mai 2023. | 4.1 | A. Adolygu addasrwydd yr adnoddau yn erbyn Gwaith Chwarae Mynediad 3.<br>B. Cwblhau gweithgaredd mapio i adnabod bylchau yn yr adnoddau i gefnogi Gwaith Chwarae Mynediad 3.<br>C. Datblygu adnoddau os oes eu hangen.<br>D. Uwchlwytho'r adnoddau Gwaith Chwarae Mynediad 3 i wefan Cwlwm.<br>E. Uwchlwytho'r adnoddau Gwaith Chwarae Mynediad 3 i borth CDGG. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 4.2 | A. Adolygu addasrwydd yr adnoddau yn erbyn Sylfaen 1.<br>B. Cwblhau gweithgaredd mapio i adnabod bylchau yn yr adnoddau i gefnogi Sylfaen 1.<br><br>C. Datblygu adnoddau os oes eu hangen.<br>D. Uwchlwytho’r adnoddau Sylfaen 1 i wefan Cwlwm.<br>E. Uwchlwytho’r adnoddau Sylfaen 1 i borth CDGG. |
| | | 4.3 | A. Adolygu addasrwydd yr adnoddau yn erbyn Sylfaen 2.<br>B. Cwblhau gweithgaredd mapio i adnabod bylchau yn yr adnoddau i gefnogi Sylfaen 2.<br><br>C. Datblygu adnoddau os oes eu hangen.<br>D. Uwchlwytho’r adnoddau Sylfaen 2 i wefan Cwlwm.<br>E. Uwchlwytho’r adnoddau Sylfaen 2 i borth CDGG. |
| | | 4.4 | A. Adolygu addasrwydd yr adnoddau yn erbyn Sylfaen 3.<br>B. Cwblhau gweithgaredd mapio i adnabod bylchau yn adnoddau i gefnogi Sylfaen 3.<br><br>C. Datblygu adnoddau os oes eu hangen.<br>D. Uwchlwytho’r adnoddau Sylfaen 3 i wefan Cwlwm.<br>E. Uwchlwytho’r adnoddau Sylfaen 3 i borth CDGG. |
| 5 | Adroddiad Blynyddol | 5.1 | Ysgrifennu’r adroddiad blynyddol. |

## 1. Gweithredu cynllun i hyrwyddo bodolaeth Camau ac annog 500 o ddysgwyr i gofrestru ar y cyrsiau.

### 1.1 Hyrwyddo'r cyrsiau Camau drwy'r sianeli cyfryngau cymdeithasol, safleoedd we, cyfarfodydd, ac e-bwletinau.

Hyrwyddwyd cyrsiau Camau drwy gydol 2023/24, yn defnyddio platfformau niferus i sicrhau bod y wybodaeth yn cyrraedd cynulleidfa eang:

- Platfformau Cwlwm ar y cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â rhai partneriaid Cwlwm.
- Mae gwefan Cwlwm, yn ogystal â rhai partneriaid Cwlwm, wedi eu diweddaru i gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â Camau (gan gynnwys y broses cofrestru).
- Rhennir gwybodaeth yn ymwneud â Camau yn ddigidol, drwy e-byst, newyddlenni ac e-bwletinau.
- Mae'r cydlynwyr Iaith Gymraeg wedi hwyluso sesiynau gwybodaeth i gefnogi recriwtio. Mynychodd Cwlwm nifer o gyfarfodydd Awdurdod Lleol a Dechrau'n Deg i hyrwyddo Camau ac i recriwtio dysgwyr, ar ran holl sefydliadau partner Cwlwm.

Ni osodwyd targed rhifiadol ar bartneriaeth Cwlwm gan Lywodraeth Cymru yn nhermau'r nifer o gofrestriadau, pobl sy'n ymwneud â neu'n cwblhau'r cwrs; fodd bynnag wnaeth cynrychiolwyr Cwlwm osod targed mewnol o 500 cofrestriad er atebolrwydd ei hun.

| Cwrs | Nifer a gofrestrodd | Nifer wnaeth cwblhau |
|---|---|---|
| Mynediad 1 | 355 | 190 |
| Mynediad 2 | 91 | 56 |
| Mynediad 3 | 37 | 40 |
| Camau Chwarae 1 | 138 | 78 |
| Camau Chwarae 2 | 32 | 16 |
| Camau Chwarae 3 | 9 | 4 |
| Sylfaen 1 | 33 | 9 |
| Sylfaen 2 | 8 | 2 |
| Canolradd 1 | 13 | 4 |
| **Cyfanswm** | **716** | **399** |

### 1.2 Datblygu fideo hyrwyddo yn dangos manteision ymgymryd â chwrs Camau.

Datblygwyd fideo hyrwyddol yn dangos manteision ymgymryd â chwrs Camau ym mis Ebrill 2023 i gefnogi marchnata Camau drwy amlygu'r manteision. Rhennir y fideo ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol Cwlwm a rhai'r partneriaid, yn ogystal â gwefan Cwlwm. Gallwch wylio'r fideo drwy'r ddolen: https://www.cwlwm.org.uk/camau-0

### 1.3 Datblygu amserlen i rannu negeseuon cadarnhaol gan ddysgwyr ar y cyfryngau cymdeithasol.

Datblygwyd amserlen i rannu negeseuon cadarnhaol ym mis Ebrill 2023 er mwyn cefnogi'r gwaith o farchnata Camau drwy amlygu manteision Camau drwy rannu profiadau ymarferwyr. Rhennir y negeseuon ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol Cwlwm a rhai'r partneriaid, yn ogystal â gwefan Cwlwm.

**B. Rhannu negeseuon cadarnhaol gan ddysgwyr ar y cyfryngau cymdeithasol yn ôl yr amserlen. (I'w rhannu gan un o bartneriaid Cwlwm, un pob wythnos). Hyrwyddo unedau Camau gyda dolenni i adnodd cyfatebol. (Taflen wybodaeth/fideo'n gysylltiedig â'r uned a wnaed gan y dysgwr) ar sail wythnosol, trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol Cwlwm a'r mudiadau'n unigol.**
Enghraifft o ddyfyniadau cadarnhaol gan ddysgwyr:


- Mae rhywbeth oedd yn fodd o ddatblygu fy ngyrfa bersonol bellach yn daith i'r tîm cyfan. Nid yw hwn yn ychwanegiad i'r hyn sydd angen i ni ei wneud; bellach mae'n rhan o'n hymarfer bob dydd.

- Mae'r cyrsiau yn addysgiadol ac yn hawdd eu defnyddio. Mae yna glipiau i gefnogi ynganiad, a gelli di eu defnyddio cymaint o weithiau a hoffet, nes dy fod yn ddigon hyderus i ddweud nhw heb gymorth.

- Yn ôl X, un o brif fanteision dilyn y cwrs ar-lein oedd bod ganddi gwell dealltwriaeth o'r iaith, ac mae wedi cynorthwyo gydag ynganu geiriau.

### 1.4 Datblygu amserlen ar gyfer sesiynau byw misol i hyrwyddo cyrsiau, unedau ac adnoddau Camau.

Cyflwynwyd 13 arddangosfa Camau rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, gyda chyfanswm o 56 o ddysgwyr yn mynychu.




**A. Datblygu amserlen ar gyfer sesiynau byw misol i hyrwyddo unedau ac adnoddau Camau.**

Datblygwyd ffurflen gipio data i gynllunio amserlen darparu'r sesiynau hyrwyddo Camau, yn

caniatáu ymateb cydlynus ar draws y bartneriaeth Cwlwm. Diweddarwyd y ffurflen gipio data yn achlysurol yn ystod y flwyddyn mewn ymateb i geisiadau.

**B. Hyrwyddo'r sesiynau byw misol ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan Cwlwm.**

Hyrwyddwyd y sesiynau ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol, a gellir gweld amserlen yr arddangosiadau ar wefan Cwlwm: <https://www.cwlwm.org.uk/camau-showcase>.

**C. Darparu'r sesiynau drwy'r platfform ar-lein (mynychu rhai wyneb yn wyneb pe bai angen).**

Trefnwyd cyfanswm o 14 arddangosiad Camau rhwng Ebrill 2023 - Mawrth 2024.

Cynhaliwyd 13 o'r rhain ar blatfformau ar-lein, ac 1 wyneb yn wyneb.

**1.5 A. Bob partner Cwlwm i greu 4 astudiaeth achos (1 bob chwarter) sy'n amlygu taith y dysgwr ar y cyrsiau Camau, sy'n rhannu sut mae hyfforddiant yn dylanwadu ar ymarfer.**

Cynhyrchodd partneriaid Cwlwm gyfanswm o 23 astudiaeth achos, ac mae bob un yn weledol ar wefan Cwlwm: https://www.cwlwm.org.uk/welsh-language-support/case-studies?page=0.
Mae'r mwyafrif o'r astudiaethau achos yn ysgrifenedig, fodd bynnag mae Cwlwm wedi dechrau cynhyrchu astudiaethau achos clywedol: https://youtu.be/KTqKjrRYO5o <https://youtu.be/KTqKjrRYQ5o>

Cesglir astudiaethau achos gan ddarparwyr blynyddoedd cynnar, gofal plant a darparwyr chwarae ledled Cymru, fel y gellir ei weld yn yr astudiaethau achos.


**B. Gosod yr astudiaethau achos ar wefan Cwlwm.**

Gosodwyd yr astudiaethau achos ar wefan Cwlwm bob chwarter: https://www.cwlwm.org.uk/welsh-language-support/case-studies?page=0.

**C. Rhannu'r astudiaethau achos ar gyfryngau cymdeithasol Cwlwm a'r partneriaid.**

Rhennir yr astudiaethau achos ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol Cwlwm, gyda dolenni at wefan Cwlwm. Wedyn, rhennir y rheini ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol y partneriaid.

Gweler isod am fap yn dangos ble y lleolir yr astudiaethau achos.



## 2. Darparu cefnogaeth barhaus i'r 500 dysgwr wnaeth fynychu cyrsiau Camau rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024.

### 2.1 Partneriaid Cwlwm i ddarparu cefnogaeth barhaus a chyswllt dilynol i sicrhau bod hyfforddiant yn dylanwadu ar ymarfer, a hynny dros e-bost / ffôn / platfform ar-lein / wyneb yn wyneb.

Wnaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Blynyddoedd Cynnar Cymru, Mudiad Meithrin, NDNA Cymru a Pacey gefnogi eu haelodau priodol i ddatblygu eu Cymraeg drwy gydol 2023/24. Defnyddiwyd sesiynau cefnogaeth rhithiol at effaith dda, gan ganiatáu i'r gefnogaeth gael ei darparu'n hyblyg, ac ateb gofynion dysgwyr yn gyflym.

Mae'r cydlynwyr Iaith Gymraeg yn allweddol wrth i ddysgwyr gyfnerthu eu sgiliau Cymraeg. Mae cefnogaeth bwrpasol i bob dysgwr a lleoliad, ynghyd â pherthnasau gwaith da, yn sicrhau gall dysgwyr ymwneud â'r iaith mewn ffordd sy'n cefnogi eu dull dysgu a lefel eu hiaith, gan felly sicrhau bod hyfforddiant yn dylanwadu ar ymarfer.

### A. Datblygu amserlen i hyrwyddo 'Gair yr Wythnos' ar y cyfryngau cymdeithasol yn wythnosol.

Gafodd rhaglen 'Gair yr Wythnos' ei chreu a'i hadolygu. Eleni, ehangodd Cwlwm ar 'Gair yr Wythnos' a chreu ABC (Adeiladu Brawddegau Cymraeg). Penderfynwyd byddai'n fuddiol i ddysgwyr derbyn brawddegau byrion defnyddiol yn hytrach na geiriau unigol. Roedd Gair yr Wythnos ar gael rhwng Ebrill - Mai 2023, ac fe wnaethon ni ehangu i ABC ym mis Mehefin 2023.

| Brawddeg | Dolen |
|---|---|
| Ebrill | https://youtu.be/y3Nz_3XT3Mg |
| Pasg | https://youtu.be/eneeIuGW6Sk |
| Croes | https://youtu.be/WrqzWdbMDOM |
| Buwch goch gota | https://youtu.be/a5KwPtTtp0I |
| Cwningen | https://youtu.be/FG84LRd6obg |
| Mai | https://youtu.be/FG84LRd6obg |
| Blodeuo | https://youtu.be/yYwTPaMPu3A |
| Hanner tymor | https://youtu.be/qHHAmDONDaQ |
| Mae hi'n amser cinio | https://youtu.be/zQzlvBBUOQg |
| Mae hi'n amser chwarae | https://youtu.be/f9HtrTBhZdY |
| Mae hi'n amser tacluso | https://youtu.be/t7KxvJHgBgI |
| Mae hi'n amser mynd adref | https://youtu.be/aM6VO9oBaJg |
| Mae hi'n amser stori | https://youtu.be/F4wuyTQEt-E |

| | |
|---|---|
| Mae hi'n amser canu | https://youtu.be/JiiQh4CK0YE |
| Mae hi'n amser golchi dwylo | https://youtu.be/S3fGxOpuX8E |
| Tynnwch eich siwmper | https://youtu.be/G2Azo_a_370 |
| Gwisgwch eli haul | https://youtu.be/XUm2tx4c0uw |
| Ble mae dy sbectol haul? | https://youtu.be/sjkpbjIJIWM |
| Wyt ti eisiau diod? | https://youtu.be/ZMOXJA1y3P8 |
| Sut mae'r tywydd heddiw? | https://youtu.be/3Ne4lZ0hMNg |
| Es i i'r traeth | https://youtu.be/cfKX3WpnU_o |
| Diwrnod cyntaf | https://youtu.be/8LN1wqFSLnY |
| Beth yw dy enw di? | https://youtu.be/TIg2QFxTt9k |
| Pwy wyt ti? | https://youtu.be/Hu527ltLvSk |
| Ga' i help? | https://youtu.be/dpTmatBjOC4 |
| Sut wyt ti heddiw? | https://youtu.be/ojECmdWpkNo |
| Dewch i weld | https://youtu.be/TSQrIvDeOUU |
| I pwy mae hwn yn perthyn? | https://youtu.be/KVUj3SXHvDY |
| Calan Gaeaf hapus | https://youtu.be/YHeOFP0AOJ0 |
| Pa stori hoffech ddarllen heddiw? | https://youtu.be/aOgBypSaN4g |
| Dewch i ganu | https://youtu.be/Dnpn7HBl7Sk |
| Mae hi'n oer | https://youtu.be/WpVhlfZ2teU |
| Helo Siôn Corn | https://youtu.be/vO-qSLOgM9k |
| Wyt ti wedi addurno? | https://youtu.be/sTIMLZEv7Y4 |
| Ydy hi'n bwrw eira? | https://youtu.be/gYyVAz7fnM0 |
| Mae hi bron yn noswyl Nadolig | https://youtu.be/8d1HHcrXP7M |
| Nadolig Llawen | https://youtu.be/YBGubofcQgY |
| Blwyddyn Newydd dda | https://youtu.be/HMzt6NRlDlY |
| Rwyt ti'n garedig | https://youtu.be/6aGg1d6HK8o |
| Rwy'n dy garu di | https://youtu.be/31__2sawhDo |

| | |
|---|---|
| Dydd Santes Dwynwen Hapus | https://youtu.be/cuLs6a3IInM |
| Dewch i weld y blodau | https://youtu.be/kt4r85DupHE |
| Dewch i greu carden | https://youtu.be/FVxJBXAWGOg |
| Dydd Sant Folant hapus | https://youtu.be/D8oRXgFCE2Y |
| Y ddraig goch | https://youtu.be/1GKIibcnKeM |
| Dydd Gŵyl Dewi hapus | https://youtu.be/Ofm2dxGmg6Y |
| Mae hi bron yn wanwyn | https://youtu.be/epolzGzL6RU |
| Dyma liwiau'r enfys | https://youtu.be/WJ2QcJjgAyg |
| Y cwningen Pasg | https://youtu.be/0qNZyQ-Js9o |
| Pasg hapus | https://youtu.be/Zt4-be2nQ_4 |

A. **Rhannu ynganiad a gramadeg 'Gair yr Wythnos' dros y cyfryngau cymdeithasol, a gwefan Cwlwm a'r partneriaid.**

Rhennir Gair yr Wythnos a'r ABC ar gyfryngau cymdeithasol Cwlwm bob dydd Llun. Fe'u gosodwyd hefyd ar wefan Cwlwm: https://www.cwlwm.org.uk/abc-adeiladu-brawddegau-cymraeg.

**2.3 Datblygu ffurflen wybodaeth yn cynnwys dolenni defnyddiol.**

Datblygwyd ffurflen wybodaeth yn cynnwys dolenni ac apiau defnyddiol, ac fe'i gosodir ar wefan a chyfryngau cymdeithasol Cwlwm: https://www.cwlwm.org.uk/camau-resources

A. **Rhannu adnodd fideo'n deufisol i gyd-fynd â'r unedau i gefnogi datblygiad a chynnydd dysgwyr.**

Trefnwyd cwisiau Camau ar sail ddeufisol, ac maent yn canolbwyntio ar sgyrsiau yn yr unedau mynediad, a gwybodaeth gyffredinol am Gymru a'r Gymraeg.

B. **Datblygu amserlen.**

Datblygwyd amserlen, ac roedd cwisiau Camau ar gael ym mis Mai, Gorffennaf, Medi, Tachwedd, Ionawr a Mawrth. Rhennir yr wybodaeth hon drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gan sefydliadau Cwlwm i'w dysgwyr yn unigol.

C. **Gosod yr amserlen ar wefan Cwlwm.**

Mae gan y cwis Camau tab ei hun ar wefan Cwlwm, sydd ar gael drwy'r ddolen hon: https://www.cwlwm.org.uk/camau-quiz.

3. **Cydlynu cyfarfodydd misol a deufisol gyda'r sawl sy'n rhan o brosiect Camau er mwyn sicrhau dull cydlynus.**

**3.1 A. Trefnu cyfarfodydd misol i gydlynwyr Iaith Gymraeg Cwlwm.**

Trefnwyd a chynhaliwyd cyfarfodydd i'r cydlynwyr Iaith Gymraeg ar y dyddiau isod:
24ain Ebrill 2023
20fed Mehefin 2023
26ain Gorffennaf 2023
13eg Medi 2023
8fed Tachwedd 2023
23ain Ionawr 2024
22ain Chwefror 2024

**B. Danfon dolenni Teams.**

Mae'r cydlynwyr Iaith Gymraeg yn derbyn dolen i'r cyfarfod ar-lein unwaith mae'r dyddiad wedi ei gadarnhau ar ddiwedd y cyfarfod presennol.

**C. Gwneud cais am eitemau i'r agenda 10 diwrnod cyn y cyfarfod.**

10 diwrnod cyn y cyfarfod, rhennir e-bost gyda phartneriaid Cwlwm yn gwneud cais am eitemau i'w osod ar yr agenda.

**D. Danfon camau gweithredu'n ddwyieithog i'r CIG 4 diwrnod ar ôl y cyfarfod.**

Mae'r camau gweithredu yn cael eu teipio a'u rhannu gyda'r CIG o fewn 4 diwrnod o'r cyfarfod.

**3.2 A. Trefnu cyfarfodydd deufisol i'r partneriaid arweiniol a'r GDCG ynglŷn â dysgwyr a chyrsiau Camau.**

Cynhelir cyfarfodydd deufisol ar gyfer y partneriaid arweiniol a'r GDCG ar y dyddiadau isod.
15fed Awst 2023
16eg Ionawr 2024
5ed Mawrth 2024

**B. Cyfarfod partneriaid Cwlwm ac adrodd yn ôl.**

Rhoddir unrhyw wybodaeth a rennir gan y GDCG ar yr agenda, er mwyn ei rhannu â phartneriaid Cwlwm yn y cyfarfod nesaf. Er enghraifft, yn y cyfarfod diwethaf trafodwyd y bydd tystysgrifau dim ond yn cael eu dyrannu ar ddiwedd pob lefel, yn hytrach nag ar ddiwedd pob cwrs. Danfonir tystysgrifau dim ond ar gwblhau Mynediad 3 - Camau a Chwarae Camau, Sylfaen 3, a Chanolradd 2. Mae'r GDCG wedi diweddaru ei gwefan gyda'r deilliannau dysgu ar gyfer pob lefel, a gall canfod y rhain ar wefan Camau.

**4. Cynhyrchu adnoddau cefnogol i ddysgwyr ar y cyrsiau Camau canlynol: Gwaith Chwarae 3; Sylfaen 2 a 3, a gwneud hynny erbyn Mai 2023.**

**4.1 A. Adolygu adnoddau yn erbyn Gwaith Chwarae Mynediad 3 i weld os ydynt yn addas.**

Cafodd adnoddau gan yr holl bartneriaid Cwlwm eu mapio'n unigol yn erbyn unedau Gwaith Chwarae Mynediad 3, a'u cyfuno i greu un ddogfen PDF gafodd ei huwchlwytho i wefan Cwlwm er mwyn iddi gael ei lawrlwytho gan eraill.

**B. Cwblhau ymarfer mapio i adnabod bylchau yn yr adnoddau sy'n cefnogi Gwaith Chwarae Mynediad 3.**

Wnaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs adolygu'r adnoddau, a nodwyd eu bod yn addas i Camau Gwaith Chwarae 3, ac felly nid oedd angen ymgymryd â'r gweithgaredd mapio.

**C. Datblygu adnoddau os oes eu hangen.**

Wnaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs adolygu'r adnoddau, a nodwyd eu bod yn addas i Camau

Gwaith Chwarae 3, ac felly nid oedd angen datblygu unrhyw adnoddau ychwanegol.

**D. Gosod adnoddau Cwlwm ar gyfer Gwaith Chwarae Lefel 3 ar wefan Cwlwm.**

Gafodd yr adnoddau Mynediad 3 ei uwchlwytho eto i wefan Cwlwm, dan faner Gwaith Chwarae Mynediad 3.Gafodd y faner ei hail-frandio i gyd-fynd â'r logo Chwarae Camau.

**E. Uwchlwytho adnoddau Cwlwm Gwaith Chwarae Mynediad 3 i'r porth GDCG.**

Wnaeth y cydlynwyr iaith Gymraeg lawrlwytho'r holl ffeiliau PDF unigol o'r uned oddi ar wefan Cwlwm, a'u huwchlwytho i'w porth Dysgu Cymraeg. Roedd pob cydlynydd iaith Gymraeg unigol yn gyfrifol am uwchlwytho'r deunydd i'r porth ac adrodd i'r partneriaid arweiniol ar unrhyw broblemau perthnasol. Byddai'r partneriaid yn bwydo unrhyw adborth yn ôl i'r GDCG.

**4.2 A. Adolygu adnoddau yn erbyn Sylfaen 1 i weld os ydynt yn addas.**

Wnaeth y cydlynwyr iaith Gymraeg adolygu adnoddau eu sefydliadau priodol yn erbyn cynnwys Sylfaen 1.

**B. Cwblhau ymarferiad mapio i adnabod bylchau yn yr adnoddau sy'n cefnogi Sylfaen 1.**

Datblygwyd dogfen mapio gafodd ei gwblhau gan yr holl gydlynwyr iaith Gymraeg, wnaeth mapio adnoddau eu sefydliadau priodol yn erbyn cynnwys pob uned unigol o fewn Sylfaen 1. Roedd partneriaid arweiniol yn gallu adnabod unrhyw fylchau yn yr adnoddau a gynigwyd.

**C. Datblygu adnoddau os oes eu hangen.**

Ni wnaeth y gweithgaredd mapio Sylfaen 1 adnabod llawer o adnoddau, felly gafodd recordiadau o ramadeg a sgyrsiau o fewn y gwerslyfr Sylfaen 1 eu recordio a'u huwchlwytho i YouTube.

**D. Uwchlwytho adnoddau Sylfaen 1 Cwlwm i wefan Cwlwm.**

Gafodd adnoddau Sylfaen 2 eu huwchlwytho i wefan Cwlwm dan faner Sylfaen 2.

**E. Uwchlwytho adnoddau Sylfaen 1 Cwlwm i'r porth GDCG.**

Wnaeth y cydlynwyr iaith Gymraeg lawrlwytho'r holl ffeiliau PDF unigol o'r uned oddi ar wefan Cwlwm, a'u huwchlwytho i'w porth Dysgu Cymraeg. Roedd pob cydlynydd iaith Gymraeg unigol yn gyfrifol am uwchlwytho'r deunydd i'r porth ac adrodd i'r partneriaid arweiniol ar unrhyw broblemau perthnasol. Byddai'r partneriaid yn bwydo unrhyw adborth yn ôl i'r GDCG.